CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT

# Strategaeth Ddigidol

DINESYDD DIGIDOL

CYNGOR DIGIDOL

LLE DIGIDOL

bridgend.gov.uk

2020 | 2024

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

# Rhagair



**Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022, a adolygwyd yn ddiweddar ar gyfer 2020-2021, yn amlinellu rhestr uchelgeisiol o amcanion llesiant i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon, effeithiol a hygyrch i ddinasyddion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.**

Yn y cynllun hwnnw, rydym yn diffinio sut y byddwn yn mabwysiadu dulliau gweithredu newydd, gyda thrigolion a gwasanaethau lleol wrth wraidd y ffordd yr ydym yn cyflawni. Mae croesawu technoleg yn ffactor allweddol yn y cynllun hwnnw.

Wrth i'r rhyngrwyd barhau i newid y byd o'n cwmpas yn gyflymach fyth, mae ein poblogaeth yn tyfu'n gyflym, ar adeg pan fo cyllid llywodraeth ganolog ar gyfer awdurdodau lleol yn gostwng. Rydym yn wynebu heriau cynyddol a brys o ran cynaliadwyedd amgylcheddol, ac ni allwn fforddio sefyll yn ein hunfan wrth i ni weithio tuag at ein gweledigaeth o fod yn fwrdeistref sirol sy'n ddigidol gysylltiedig, sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae'n amlwg bod dull newydd mor radical, a thwf economaidd ein bwrdeistref sirol yn y dyfodol, yn dibynnu arnom ni i wneud gwell defnydd o'r cyfleoedd presennol a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg y gall adnoddau digidol, data a thechnoleg eu darparu. Dyna pam mae'r Strategaeth Ddigidol hon yn alluogwr hanfodol i'n cefnogi i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon mewn ffordd sy'n gydnaws â'r ddemograffeg newidiol a'r galwadau cynyddol a wynebir gan ein dinasyddion a'n partneriaid.

Nod allweddol y cyngor yw parhau i wella a moderneiddio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, gan ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd, disgwyliadau a heriau a ddaw yn sgil y farchnad ddigidol sy'n newid yn barhaus.

Rydym wedi gwrando ar ein trigolion sy'n disgwyl ffyrdd effeithlon, o ansawdd uchel, ar-lein o gyfathrebu a gwneud busnes gyda ni ar sail 24/7 sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw, nid ein patrymau gwaith ni.

Mae'r Strategaeth Ddigidol pedair blynedd uchelgeisiol hon yn nodi sut y byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae adnoddau digidol yn eu cyflwyno i ni. Fe'i rhannwyd yn dair prif egwyddor:



DINESYDD DIGIDOL — CYNGOR DIGIDOL — LLE DIGIDOL

Yn sail i bob egwyddor mae rhaglen waith i gyflawni ein nodau erbyn 2024. Nodi gweledigaeth glir o sut rydym yn bwriadu symleiddio prosesau arferol ac ailadroddus, gan ddarparu cysylltiadau o'r dechrau i'r diwedd â systemau cefn swyddfa, gyda'r uchelgais o sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy wasanaethau digidol awtomataidd.

Datblygwyd Egwyddorion Digidol y cyngor i ategu sylfeini'r Pum Ffordd o Weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan alinio dull 'Digidol yn Gyntaf' o ymdrin â'r dirwedd ddigidol genedlaethol.

Rydym yn diffinio'r hyn y gall dinasyddion, ysgolion, busnesau ac ymwelwyr ei ddisgwyl a'i gyflawni o'n gwasanaethau digidol a sut y byddwn yn cefnogi ein staff i weithio mewn ffordd fwy hyblyg, gyda chymorth y dechnoleg orau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd da drwy gyflwyno llwyfan dinasyddion sy'n cefnogi gwasanaethau trafodaethol ar-lein, gwella hygyrchedd ein gwefan a dulliau newydd o gyfathrebu e.e. Chatbot. Rydym wedi symleiddio prosesau Adnoddau Dynol ac wedi buddsoddi mewn technoleg i alluogi staff i weithio mewn ffordd fwy symudol a hyblyg.

Rwyf yn falch o gefnogi'r strategaeth newydd hon. Mae'n gosod llwybr clir ar gyfer y pedair blynedd nesaf, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd technolegau digidol i wella'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, y mannau lle rydych yn byw ac yn gweithio, a pha mor effeithlon mae'r cyngor yn gweithredu fel y gall ddarparu'r gwasanaethau gorau a'r gwerth gorau i ddinasyddion.

**Mark Shephard.** Prif Weithredwr

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| RHAGAIR | 1 |
| YR AGENDA GENEDLAETHOL | 3 |
| DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 | 4 - 5 |
| CYFLWYNIAD | 6 |
| GWELEDIGAETH | 7 |
| NODAU | 8 |
| PAM DIGIDOL | 9 |
| EGWYDDORION | 10 |
| THEMÂU | |
| DINESYDD DIGIDOL | 11 - 12 - 13 |
| CYNGOR DIGIDOL | 14 - 15 |
| LLE DIGIDOL | 16 - 17 |
| LLYWODRAETHU | 18 |




# Strategaeth Ddigidol

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) a'r Llywodraeth Ganolog wedi cyhoeddi eu strategaethau digidol sy'n nodi disgwyliadau ac arweiniad ar gyfer darparu gwasanaethau digidol mewn llywodraeth leol.

Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth wedi dangos sut y gall cymhwyso diwylliant, arferion a thechnolegau digidol i lywodraeth ganolog wneud i'r llywodraeth weithio'n well i ddefnyddwyr. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cydnabod a'u cynnwys drwy’r Strategaeth hon.

Nod strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru, ‘Cymru Ddigidol’ yw gwneud Cymru'n genedl wirioneddol ddigidol. Mae'n nodi pum amcan allweddol:

**1. Mynd i'r afael â'r rhaniad digidol;**

**2. Gwella sgiliau digidol;**

**3. Tyfu ein heconomi ddigidol;**

**4. Darparu band eang cyflymach ledled Cymru;**

**5. Darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.**


Mae ‘Digidol yn Gyntaf’, Strategaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i wella amcan 5, yn ceisio datblygu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau digidol ledled Cymru.

Fel rhan o'r uchelgais hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn seilwaith Cydgasglu Band Eang Sector Cyhoeddus Cyflym Iawn Cymru (PSBA), sy'n caniatáu i wasanaethau cyhoeddus ddarparu gwasanaethau digidol i'n cymunedau drwy rwydwaith diogel a chyflym sydd hefyd yn cefnogi partneriaethau gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru. Nod Digidol yn Gyntaf hefyd yw y bydd pob sector cyhoeddus yn defnyddio'r parthau .cymru a .wales i greu hunaniaeth genedlaethol a bod yn llwybr diofyn ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi amlinellu eu huchelgais i ddarparu rhwydwaith ffibr cenedlaethol erbyn 2033 ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r ymgyrch 'gwaith stryd'. Mae eu Strategaeth Ddigidol ar y cyd ag Adolygiad Seilwaith Telegyfathrebiadau'r Dyfodol yn bwriadu i awdurdodau lleol wireddu eu huchelgeisiau 5G, drwy gael rhwydwaith ffibr digonol i ategu technoleg ddi-wifr sy'n datblygu.

Er mwyn harneisio datblygiadau yn y dirwedd ddigidol, rydym wedi cydweithio â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a manteision cael cysylltiad llawn o rwydweithiau arloesol digidol, i asesu arfer da a dysgu gwersi gan aelodau eraill. Rydym eisoes yn cysylltu â rhaglen Llywodraeth Cymru o Symud Cymru Ymlaen, strategaeth i wella rhwydweithiau symudol, gan sicrhau bod ein dinasyddion, staff, busnesau ac ymwelwyr yn elwa o ddarpariaeth ehangach.

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario tua £400miliwn y flwyddyn ar dechnoleg. Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y Cytundeb Adnoddau Digidol a TGCh Ystwyth (ADIRA), fframwaith Cymru gyfan sy'n darparu dull cyflym, cydymffurfio a chost-effeithiol i awdurdodau lleol ddod o hyd i'r cyflenwr cywir, tra'n cyfrannu at Gymru Ffyniannus.



# Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn 2016, ac fe greodd saith nod i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt i wella lles eu hardal ac sy'n nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cyfeiriwyd at y pum ffordd o weithio tuag at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy gydol y Strategaeth gan adlewyrchu ein huchelgais i gyflawni'r rhwymedigaethau arnom i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Rhai enghreifftiau o sut mae'r Strategaeth yn bwrw ymlaen â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

| | |
|---|---|
| **Tymor hir** | Gan gydnabod bod ein poblogaeth yn heneiddio ac yn dod yn fwy amrywiol, mae gwasanaethau digidol yn golygu y gellir rhoi mwy o ffocws i gefnogi'r rhai sydd angen mwy o gymorth. Gan gydnabod bygythiad newid yn yr hinsawdd, mae arferion gweithio mwy hyblyg yn golygu llai o deithiau sy'n effeithio ar allyriadau CO2 ac ansawdd aer. |
| **Ataliol** | Gall mynediad hawdd at wybodaeth a'r gallu i reoli tasgau o ddydd i ddydd yn ddigidol yn hawdd helpu pobl i fod yn hunan-gynhaliol ac atal colli annibyniaeth. |
| **Ymglymiad** | Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi bod yn sail i'r Strategaeth a bydd rhaglenni dysgu parhaus o adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr yn llywio datblygiad yn y dyfodol. |
| **Integreiddio** | Manteision ar draws nodau lles gwell gwasanaethau digidol e.e. Cymru gyfartal.<br>Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau digidol sy'n galluogi Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol e.e. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan (WCCIS). |
| **Cydweithio** | Ysgolion yr 21ain ganrif i sicrhau bod plant wedi'u harfogi i safonau diweddaraf y diwydiant<br>Gweithio gyda phartneriaid eraill drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Cydweithio â'r Sefydliad Technolegau Ynni a'r Catapwlt Systemau Ynni ar y rhaglen Systemau Clyfar a Gwres Caerau. |

# Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| **Cymru ffyniannus** | Gwella seilwaith lleol i gefnogi busnesau sy'n datblygu.<br>Helpu pobl leol i ennill sgiliau perthnasol. |
| **Cymru gydnerth** | Newid arferion gwaith a datblygu sgiliau ar gyfer gwasanaethau a chymunedau mwy gwydn wrth i'r boblogaeth a'r hinsawdd newid yn y tymor hir. |
| **Cymru iachach** | Mynediad amserol at wybodaeth i sicrhau y gellir darparu cymorth yn brydlon gan atal dirywiad pellach, wedi'i hategu gan wybodaeth amser real. |
| **Cymru fwy cyfartal** | Gwasanaethau hyblyg, sy'n ymateb i anghenion y rhai mwyaf agored i niwed. |
| **Cymru o gymunedau Cydlynus** | Cefnogi cysylltedd cyflym iawn ar y rhyngrwyd fel bod gwybodaeth ar gael yn hawdd ac yn ddibynadwy i alluogi pob cymuned i fod â chysylltiad da, gwybodus ac yn rhan o benderfyniadau am eu hardal leol. |
| **Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu** | Sicrhau bod yr holl wasanaethau a gwybodaeth yn cael eu darparu'n ddwyieithog. |
| **Cymru sy'n ymateb yn fyd-eang** | Mae mwy o wasanaethau digidol yn lleihau'r angen am deithiau ac adnoddau fel tanwydd a phapur, lleihau allyriadau Co2 a defnyddio adnoddau. |





# Cyflwyniad

Mae Strategaeth Ddigidol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu sut rydym yn anelu at gyflawni Cyngor Digidol erbyn 2024 sy'n cydnabod ac yn cyd-fynd ag uchelgais strategaeth 'Digidol yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru a Strategaeth Weddnewid Llywodraeth y DU; datblygu i fod yn ddoethach drwy ddeall heriau; defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, datblygu atebion integredig a chynllunio datblygiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar well tystiolaeth. Dywed Llywodraeth Cymru fod 'digidol da' yn ymwneud â darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl – gwasanaethau modern, effeithlon, hawdd eu defnyddio, boddhaol, ar-lein.

Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u hymgorffori yn nodau ac amcanion y Strategaeth Ddigidol. Bydd gwasanaethau digidol integredig o'r dechrau i'r diwedd yn cael eu hadeiladu o amgylch y bobl sy'n eu defnyddio, gan gyflawni ein blaenoriaeth o helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn. Nid yw'n ymwneud yn gyfan gwbl â chynllunio prosesau er hwylustod i ni nac o amgylch ein strwythurau mewnol ond mae'n canolbwyntio ar fod yn wirioneddol ganolog i ddinasyddion, yn effeithlon ac yn addas i'r diben, gan wneud defnydd doethach o adnoddau drwy drawsnewid a gynorthwyir gan dechnoleg. Mae argaeledd a dilyniant i gysylltedd digidol rhagorol hefyd yn atyniad mawr o ran denu busnesau i'r Fwrdeistref i ddarparu swyddi cynaliadwy, cyflog uchel ac felly cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus.

Yn unol â 'Digidol yn Gyntaf', mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 'yn bennaf oll, am ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid'. Mae'r galw gan ddinasyddion am adnoddau digidol yn tyfu ac wrth iddynt ddod yn fwy soffistigedig yn ddigidol, mae disgwyliadau'n codi i wasanaethau'r llywodraeth ateb y galw hwn. Mae cwblhau trafodion ar-lein wedi dod yn ail natur, gyda mwy a mwy ohonom yn mynd ar-lein ar gyfer siopa, bancio, gwybodaeth ac adloniant. Pam? Oherwydd bod gwasanaethau ar-lein yn tueddu i fod yn gyflymach, yn gyfleus, ar gael 24/7 ac yn rhatach i'w defnyddio.

Rydym wedi cynnwys ac wedi gweithredu ar yr adborth o Ymgynghoriad Cyllideb Pen-y-bont ar Ogwr, bod 87% o ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr eisiau mwy o wasanaethau cyngor ar-lein. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), mae gan 85% o ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr fynediad i'r rhyngrwyd ac maent yn ffafrio cyfleustra trafodion ar-lein. Felly, bydd swyddogaethau ar-lein modern gwell sy'n cefnogi newid sianelau i gyfleusterau hunan-wasanaeth yn ateb y galw hwn. Yn 2018 aeth Pen-y-bont ar Ogwr yn fyw gydag un platfform digidol (Fy Nghyfrif) i ddinasyddion ryngweithio â ni ar-lein ar gyfer gwasanaethau allweddol. Yn ogystal â datblygu'r platfform digidol newydd, rhyddhawyd gwefan newydd, ymatebol, a oedd yn caniatáu i ddinasyddion ryngweithio'n ddi-dor â swyddogaeth Fy Nghyfrif tra'n pori'r gwahanol wasanaethau eraill y mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Gwyddom y gall technoleg ddigidol, pan fydd yn cael ei harneisio a'i chyflwyno mewn ffordd ddiwyd, amserol a strategol, ein helpu i ychwanegu gwerth at effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau; sicrhau ymgysylltiad cyfoethocach â dinasyddion a staff; gwneud dewisiadau mwy gwybodus; dadansoddi galw a lliniaru risg; tra'n darparu'r llwyfan ar gyfer diogelu a moderneiddio pellach yn y dyfodol. Rydym am ei gwneud mor hawdd â phosibl i wneud busnes, cyfathrebu, adrodd, hunanasesu a hunangyfeirio gyda'r Cyngor drwy sianeli ar-lein.

Ni fyddwn yn rhoi'r gorau i ffyrdd confensiynol o gysylltu e.e. ffôn i'r rhai sydd eu hangen o hyd gan ein bod yn cydnabod tueddiadau hirdymor poblogaeth sy'n heneiddio, ein cymunedau amrywiol a'n cartrefi un meddiannydd.

Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau digidol drwy ymgyrchoedd marchnata ac yn hyfforddi ein cymunedau i'w defnyddio ac felly'n cynyddu sgiliau digidol yn unol â Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr.

Ein nod yw defnyddio gwybodaeth dda drwy gynnwys ein cymunedau i lywio ein penderfyniadau ar sut i ateb y galw yn y dyfodol a gwella ein gwasanaethau naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'n partneriaid. Gyda galluoedd trosglwyddo data diogel, rhagoriaeth mewn Seiberddiogelwch, cyflwyno Trawsrwydweithio'r Llywodraeth, Dadansoddeg, a Chydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) eisoes ar gael, nid oes unrhyw rwystr technolegol mawr o ran defnyddio ein data ar gyfer cydweithio agosach â'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd yn y ffordd orau. Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan (WCCIS) er enghraifft yn llwyfan integredig, sy'n galluogi gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gydlynu, rhannu a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig i'n dinasyddion.

Byddwn yn sicrhau y bydd y daith i fod yn Gyngor Digidol yn gynhwysol ac yn cael ei llywio gan yr angen i wella gwasanaethau, meithrin dealltwriaeth gyfoethocach o anghenion, dewisiadau a galluoedd dinasyddion, mynd i'r afael â phroblemau a chreu cyfleoedd i'n cymunedau a'n staff. Byddwn yn gweithio fel 'Un Cyngor' ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau diangen o wahanol. Bydd gweithredu'n llwyddiannus yn arwain at well gwasanaethau, manteision cymunedol wedi'u gwreiddio, integreiddio â nodau lles, boddhad dinasyddion a chostau gwasanaeth is ar adegau o heriau ariannol na welwyd eu tebyg o'r blaen.

# Gweledigaeth

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn cefnogi Gweledigaeth Gorfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr sef 'Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' gan gefnogi cymunedau i greu eu hatebion eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor mewn cyfnod o doriadau parhaus yn y gyllideb, disgwyliadau cynyddol dinasyddion a chydnabod newid tymor hwy yn y tirlun gwleidyddol a demograffig.

Mae'r ffactorau hyn yn sbarduno trawsnewid ein gwasanaethau. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn well gyda llai a chanolbwyntio adnoddau ar gymunedau ac unigolion sydd â'r angen mwyaf. Mae'n gofyn am ailfeddwl yn llwyr am y ffordd rydym yn gwneud busnes, gyda thechnoleg yn chwarae rhan annatod yn y gwaith o wella'r modd y darperir gwasanaethau.

Ein gweledigaeth yw dod yn Gyngor mwy gwydn, arloesol a thrawsnewidiol drwy wrando ac ymateb i'n cymunedau, ein busnesau a'n staff a nodi cyfleoedd newydd yn y farchnad ddigidol sy'n gwella ein darpariaeth gwasanaeth.

Gyda thechnolegau newydd fel gwasanaethau cwmwl, botiau sgwrsio (AI), awtomeiddio prosesau robotig (RPA), a Rhyngrwyd Pethau (IoT) e.e. Alexa, byddwn yn asesu sut y gall y technolegau hyn ein cynorthwyo i helpu ein cymunedau i fod yn fwy hunangynhaliol, byw'n annibynnol am gyfnod hirach tra'n ein galluogi i ddod yn sefydliad mwy aeddfed yn ddigidol, yn flaengar ac yn drawsnewidiol.

Er mwyn llwyddo i symud i Gyngor sy'n aeddfed yn ddigidol yna mae angen i ni fod yn uchelgeisiol, yn barod ac yn arloesol yn ein dull o ddatblygu atebion. Byddwn yn trawsnewid ein gwasanaethau ac wrth wneud hynny, yn darparu cyfleoedd ar gyfer gostyngiadau ariannol yn ogystal â gwella ein gwasanaethau yn unol â'n hegwyddorion corfforaethol.




## Lefel 2

Rhai gwasanaethau digidol, ond yn aml o ansawdd cyfyngedig. Mae yna dimau digidol ar waith ond maent yn tueddu i gael eu hynysu mewn unedau busnes neu dimau gwasanaeth / rhaglen gyda chyllideb a chylch gwaith cyfyngedig. Nid oes yna uwch reolwyr (lefel bwrdd) digidol ar waith.

## Lefel 3

Uwch reolwyr ar waith gyda chylch gwaith i osod targedau, datblygu gweledigaeth a chynllun cyffredinol, a datblygu gallu a diwylliant angenrheidiol. Mae digidol yn cael ei ystyried yn drawsnewidiad allweddol ac mae eiriolaeth yn gryf mewn rhannau allweddol o'r sefydliad.

## Lefel 4

Mae uwch reolwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddarparu gweledigaeth a chynllun, maent wedi gweithredu gallu newydd a'i dreialu'n llwyddiannus trwy ail-lunio ystod o wasanaethau i fod yn ddigidol yn ddiofyn.

## Lefel 5

Mae digidol wrth wraidd polisi a strategaeth. Mae gwasanaethau'n ddigidol yn ddiofyn. Mae diwylliant digidol yn gryf: ystwyth, defnyddiwr-ganolog, arloesol, ymatebol.

Ffynhonnell: Fframwaith Galluogrwydd Digidol Ewropeaidd

# Nodau

Uchelgais y Cyngor yw harneisio technolegau digidol i'n helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n symlach ac yn integredig, gan gadw'r dinesydd wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Cyfeirir at werthoedd corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr drwy gydol pob rhan o'r daith ddigidol:**

- Teg - yn ystyried anghenion a sefyllfa pawb.
- Uchelgeisiol - bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn ac anelu at ragoriaeth.
- Canolbwyntio ar y dinesydd - gan gofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol.
- Effeithlon - darparu gwasanaethau sy'n werth am arian.

Bydd ein nodau a'n huchelgais digidol yn 'llinyn euraid' drwy gynlluniau corfforaethol a strategol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gysylltu ein gwasanaethau a sbarduno'r newidiadau angenrheidiol i ddiwylliant ar bob lefel.

**Nodau Pen-y-bont ar Ogwr, fel Cyngor sy'n aeddfed yn ddigidol fydd:**

- Integreiddio systemau, lleihau dyblygu a lleihau mewnbwn â llaw gan anelu at sicrhau bod dinasyddion yn adrodd eu stori wrthym 'unwaith' yn unig.
- Darparu swyddogaeth ddigidol hunan-wasanaeth glir a greddfol drwy Fy Nghyfrif sydd ar gael 24/7 gyda chyfranogiad staff dim ond pan fydd ei angen ar y defnyddiwr neu lle mae'n ychwanegu gwir werth.
- Sicrhau bod dinasyddion wedi'u harfogi'n well i reoli sefyllfaoedd eu hunain, gan ryddhau ein staff i ganolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus.
- Rhoi'r offer cywir i'n staff i alluogi diweddaru'r wybodaeth a'r cysylltedd sydd eu hangen ar gyfer gweithio ystwyth iawn mewn amser real.
- Nodi tueddiadau a heriau hirdymor yn y dyfodol a bod yn barod yn ddigidol a'u galluogi i ymateb i'r heriau hyn.
- Croesawu gwasanaethau cwmwl a fydd yn darparu seilwaith mwy gwydn i ddiogelu ein gweithrediadau yn y dyfodol.
- Sicrhau ail-ddylunio gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd gyda phwyslais ar anghenion dinasyddion, ymgorffori manteision cymunedol a chyfleu'r rhain wrth i ni symud ymlaen.
- Integreiddio systemau gan sicrhau eu bod yn 'siarad' â'i gilydd, gan leihau dyblygu a lleihau mewnbwn â llaw drwy awtomeiddio lle bo modd
- Gweithio fel 'Un Cyngor' ac annog gwahanol rannau o'r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu seilos diangen
- Profi'r farchnad ddigidol i gaffael y dechnoleg a'r gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg sydd eu hangen i ddod yn Gyngor sy'n aeddfed yn ddigidol
- Sicrhau gwerth am arian drwy wneud defnydd doethach o adnoddau
- Gosod targedau clir ac uchelgeisiol ar gyfer cyflawni ffrydiau gwaith digidol.



# Pam Digidol?


Gwell profiad i Gwell profiad i ddefnyddwyr
Bwlch cyllideb o £30M hyd at 2022
Cefnogi busnesau bach a chanolig
Arbedion o £2.83-£8.62 ar gyfer pob trafodiad sy'n cael ei symud ar-lein (Ffynhonnell: SocITM)
Mae'n well gan 85% o ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr drafodion ar-lein Ffynhonnell: ONS
Mae 87% o ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr eisiau mwy o wasanaethau cyngor ar-lein
Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth i lywio ein taith ddigidol
Lleihau dibyniaeth ar systemau etifeddol a pherchnogol
Cefnogi busnesau bach a chanolig
Gwell profiad i ddefnyddwyr
15,000 o ddilynwyr Facebook
Sgôr o 5 ar raddfa allgáu digidol Doteveryone = ddim mewn perygl mawr o waharddiad (2017)
Lleihau ein hôl troed carbon
Anelu at lefel 5 yn erbyn y Fframwaith Gallu Digidol
12,000 o ddilynwyr Twitter
Mae traffig data symudol yn cynyddu ar gyfradd o hyd at 42% y flwyddyn (Ofcom)
Alinio buddsoddiadau TG yn strategol drwy atgyfnerthu, safoni a symleiddio systemau
193 miliwn o Ddyfeisiau clyfar mewn cartrefi erbyn 2020
DINESYDD DIGIDOL
CYNGOR DIGIDOL
LLE DIGIDOL

# Egwyddorion

Datblygwyd ein Hegwyddorion Digidol i ategu sylfeini'r Pum Ffordd o Weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan alinio dull 'Digidol yn Gyntaf' a chrynhoi'r egwyddorion arfer da a nodwyd gan SocITM. Felly, bydd ein gwasanaethau digidol:

- Yn cael eu cynllunio o amgylch y bobl sy'n mynd i'w defnyddio, ar draws yr holl feysydd darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o bobl ar draws Pen-y-bont ar Ogwr o ddinasyddion i fusnesau, ymwelwyr â gweithwyr.
- Yn cael eu hintegreiddio lle bo modd i ddarparu cysylltedd di-dor a bod yn syml ac yn sythweledol fel bod profiad y defnyddiwr yn gadarnhaol, yn iawn y tro cyntaf ac yn gallu symud yn hawdd rhwng swyddogaethau.
- Yn gyflym, yn ddibynadwy ac yn effeithlon gan ddefnyddio'r ddarpariaeth band eang cyflym iawn a chysylltedd â'r rhyngrwyd.
- Yn cael eu cynllunio fel y gallwn rannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn ddefnyddiol gyda'n partneriaid, i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn well, ac i dargedu ein hadnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol yn seiliedig ar y galw.
- Yn dangos arweinyddiaeth ddigidol, gan greu'r amodau ar gyfer newid sianel go iawn.
- Yn codi uwchlaw ffyrdd traddodiadol o weithio a herio'r status quo i sicrhau ein bod yn gweithio'n ddoethach.
- Yn sicrhau bod ein gweithlu yn cael ei rymuso i rannu gwybodaeth a syniadau drwy gydol y daith ddigidol a'i uwchsgilio i ddefnyddio'r offer cywir i gynorthwyo eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Yn sicrhau bod systemau hanfodol sy'n cefnogi ein dinasyddion sy'n agored i niwed yn cael eu defnyddio, eu staffio a'u cefnogi'n ddigonol – System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan (WCCIS).
- Yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Pen-y-bont ar Ogwr drwy dechnoleg sy'n defnyddio ynni'n effeithlon gan gynnwys mesuryddion clyfar ar gyfer ein heiddo a gweithio hyblyg doethach gan arwain at lai o amser yn teithio a chostau yn sgil hynny.

# Dinesydd Digidol

DINESYDD DIGIDOL

## DINESYDD DIGIDOL

- Hunan-wasanaeth pan fo angen
- Dewis o sianeli cyfathrebu
  Sgiliau digidol a chynwysoldeb

CYNGOR DIGIDOL

## CYNGOR DIGIDOL

- Trawsnewid gwasanaethau
- Atebion digidol arloesol
- Data cydgysylltiedig
- Canolbwyntio ar y dinesydd

LLE DIGIDOL

## LLE DIGIDOL

- Wedi'i gysylltu'n eang
- Canolbwyntio ar y gymuned
- Meddwl yn flaengar
- Yn ddeniadol yn economaidd

DINESYDD DIGIDOL

Mae ein cymunedau, ein hysgolion a'n busnesau'n dod yn fwyfwy craff yn ddigidol.  Mae disgwyliadau o ran mynediad at wasanaethau digidol 24/7 yn cynyddu. Ffocws y thema Dinasyddion Digidol yw gweithredu ateb digidol hawdd ei ddefnyddio sy'n gweithio ar draws mathau lluosog o ddyfeisiau sy'n caniatáu mynediad 24/7 i wasanaethau'r Cyngor gan fanteisio i’r eithaf ar hunan-wasanaeth, atal colli annibyniaeth a grymuso ein dinasyddion i wneud dewis gwybodus am sut maen nhw’n cyfathrebu ac yn rhyngweithio â ni.

Byddwn yn sicrhau bod buddsoddi mewn adnoddau digidol yn cael ei ysgogi drwy wrando ar anghenion y dinesydd yn hytrach na chaffael yr hyn yr ydym yn ei 'feddwl' maen nhw ei angen. Bydd y buddsoddiad yn seiliedig ar ddadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn y mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym maen nhw ei angen er mwyn sicrhau eu dyheadau llesiant yn y tymor byr a'r tymor hir.

Er mwyn sicrhau twf ein cymunedau a'n heconomi, rhaid i ni sicrhau bod gan ein dinasyddion, ein gweithlu a'n dysgwyr ddigon o sgiliau i ddal i fyny â chyflymder tueddiadau digidol a chyfrannu at Gymru fwy ffyniannus. Rydym yn adeiladu llwyfannau i warantu bod ein dysgwyr yn ddigon medrus wrth iddynt symud ymlaen drwy'r cwricwlwm, gan baratoi'r llwybr ar gyfer arweinwyr digidol yn y dyfodol.

Ni fydd neb yn cael ei adael ar ôl, byddwn yn sicrhau cynhwysiant digidol drwy weithio gyda chymunedau i uwchsgilio dinasyddion drwy ddefnyddio technoleg gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r gorau o'n gwasanaethau digidol.

# Dinesydd Digidol



**DINESYDD DIGIDOL**

## Yr hyn rydym yn ei wneud:

- Datblygu un platfform digidol (Fy Nghyfrif) o wybodaeth gwasanaeth wedi'i thargedu, offer adrodd a thrafodion rheolaidd sy'n hygyrch gydag un log; darparu taith ddi-dor, awtomataidd, o'r dechrau i'r diwedd i gwsmeriaid sy'n annog ac yn cefnogi annibyniaeth a chyfleustra.

- Darparu gwefan achrededig DAC (Canolfan Hygyrchedd Digidol) ddwyieithog hawdd ei defnyddio sy'n hawdd ei llywio ac sy'n marchnata ein diwylliant bywiog ac yn darparu dolenni i safleoedd perthnasol a gynhelir gan ein partneriaid.

- Sicrhau nad yw ein hatebion digidol yn adweithiol ac yn annibynnol ond yn gyfannol, yn gynaliadwy ac yn flaengar, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion ein dinesydd a chefnogi'r prosesau busnes y tu ôl i'n mecanwaith gwneud penderfyniadau a chyflawni.

- Darparu'r mecanweithiau ar gyfer newid sianelau drwy gynnig dewis o offer cyfathrebu modern, ar-lein. Byddwn yn sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaethau mwyaf cyfleus a chost-effeithiol i ddiwallu anghenion ein holl ddinasyddion.

- Cyfathrebu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu, rhannu negeseuon wedi'u targedu a hyrwyddo gwasanaethau digidol a defnyddio adborth i'n hysbysu lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau.

- Defnyddio technoleg i gael gwared ar dasgau rheolaidd gan ymgynghorwyr cwsmeriaid i gefnogi 'drws ffrynt corfforaethol' mwy effeithlon ac effeithiol i wasanaethau'r cyngor, gan greu'r gallu i ganolbwyntio amser ac adnoddau ar y dinasyddion mwyaf agored i niwed sydd ag anghenion lluosog, cymhleth sy'n cydnabod poblogaeth sy’n newid a thueddiadau poblogaeth hirdymor.

- Darparu sesiynau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ledled y Fwrdeistref i hyfforddi a datblygu sgiliau ein cymunedau ar ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, gwella cymhwysedd digidol a sicrhau bod cyfraddau cynhwysiant digidol da yn cael eu cynnal i gefnogi Cymru ffyniannus, twf economaidd, cynhyrchiant a symudedd cymdeithasol.

- Darparu mwy o wasanaethau ar-lein i helpu i liniaru dinasyddion a gweithwyr y Cyngor sy'n gorfod gwneud y daith i'n swyddfeydd gan gyfrannu at leihau allyriadau $CO_2$ ac felly Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

# Dinesydd Digidol





**DINESYDD DIGIDOL**

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Darparu mynediad ar-lein at wybodaeth sy'n cefnogi penderfyniadau dinasyddion i wella iechyd, lles, ffyniant a hyrwyddo cydraddoldeb yn unol â'n huchelgais i helpu pobl i ddod yn fwy hunan-gynhaliol.
- Creu Canolfan Dinasyddion a darparu cyfleusterau hunan-wasanaeth i sicrhau nad oes yr un o'n dinasyddion dan anfantais wrth geisio'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith, talu biliau, rhoi gwybod am broblem. Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle cyfartal i dderbyn cymorth lles, tai, addysgol neu wasanaethau cymdeithasol sy'n cyfrannu at Gymru iachach.
- Cynnig mwy o swyddogaeth bwcio apwyntiadau ar-lein ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fel cofrestryddion gan liniaru ciwiau, lleihau amser sy’n cael ei wastraffu ac anghyfleustra.
- Rhoi adborth gwybodus ac amserol i ddinasyddion sy'n adrodd, yn gwneud busnes ac yn cyfathrebu â ni, gan wella'r daith o'r dechrau i'r diwedd i gwsmeriaid gan arwain at ddull cywir y tro cyntaf a gwell boddhad.
- Sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei eithrio drwy barhau i ddarparu sianeli gwasanaeth cwsmeriaid confensiynol fel teleffoni gan wireddu'r duedd hirdymor o boblogaeth sy'n heneiddio.
- Ymgynghori â'n dinasyddion i sefydlu sut y gallwn addasu prosesau cyfredol, gyda chymorth technoleg lle y bo'n briodol, er mwyn diwallu eu hanghenion, eu nodau a'u gofynion gwasanaeth a chysoni ein taith ddigidol gyda'r rhain.
- Cyhoeddi cyfres ar-lein o wybodaeth gan y cyngor gan gynnwys swyddogaethau mapio, sicrhau bod Data Agored ar gael yn rhwydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- Darparu gwasanaethau sy'n cael eu 'sicrhau drwy ddylunio' o'r cychwyn cyntaf gan gynnal y safonau perthnasol o ran egwyddorion Seiberddiogelwch, er mwyn rhoi sicrwydd i'n dinasyddion bod eu data'n ddiogel.
- Darparu atebion digidol sy'n gwbl ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; y gall pob cymuned eu cyrchu a'u defnyddio ac sy'n gwella eu nodau a'u gofynion llesiant ar unwaith ac yn y dyfodol.
- Sicrhau bod ein holl wasanaethau yn ddwyieithog yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015 gan hyrwyddo ein diwylliant bywiog ymhellach.
- Darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ddulliau partneriaeth sy'n cyfrannu at Gymru fwy ffyniannus gyda chyfle cyfartal i'n dinasyddion.

### Ein cyfraniad i'r nodau llesiant canlynol:



CYMRU LEWYRCHUS | CYMRU GYDNERTH | CYMRU SY'N FWY CYFARTAL | CYMRU IACHACH | CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS | CYMRU O DDIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU | CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

# Cyngor Digidol

CYNGOR DIGIDOL

## CYNGOR DIGIDOL

- **Trawsnewid gwasanaethau**
- **Atebion digidol arloesol**
- **Data cydgysylltiedig**
- **Canolbwyntio ar y dinesydd**

DINESYDD DIGIDOL

## DINESYDD DIGIDOL

- **Hunan-wasanaeth pan fo angen**
- **Dewis o sianeli cyfathrebu Sgiliau digidol a chynwysoldeb**

LLE DIGIDOL

## LLE DIGIDOL

- **Wedi'i gysylltu'n eang**
- **Canolbwyntio ar y gymuned**
- **Meddwl yn flaengar**
- **Yn ddeniadol yn economaidd**

CYNGOR DIGIDOL

## Yr hyn rydym yn ei wneud:

- Sicrhau arweinyddiaeth weladwy, uchelgeisiol drwy'r Cyngor sy'n hyrwyddo sgiliau digidol o'r Prif Weithredwr i lawr.
- Darparu hyfforddiant i'n staff lle bo angen, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r technolegau newydd a gyflwynir i ddarparu a gwella gwasanaethau.
- Nodi meysydd o'n gwasanaethau lle y gallai cyflwyno technoleg ryddhau ein staff i ddarparu ymyrraeth uniongyrchol gwerth uchel mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.
- Sicrhau ein bod yn caffael ein technoleg sy'n 'iawn y tro cyntaf' ac yn addas i'r diben, gan geisio arbedion maint lle y bo'n bosibl gan ddefnyddio Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol fel G-Cloud a chefnogi busnesau bach a chanolig lleol i wneud y gorau o'u galluoedd i ffynnu'n fasnachol.
- Cefnogi gweithio ystwyth drwy fynediad at wasanaethau Cwmwl, Cydgasgliad Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) a gallu Trawsrwydweithio'r Llywodraeth (Gov Roam), defnyddio dyfeisiau symudol addas i'r diben sy'n caniatáu i'n staff ddarparu gwasanaethau gwydn a hyblyg i'n dinasyddion hefyd gan ddangos ein huchelgais i fod yn gyfrifol yn fyd-eang drwy leihau ein hallyriadau CO2.
- Cyflwyno mannau cyfarfod rhyngweithiol digidol sy'n lliniaru'r angen i bobl deithio i gyfarfodydd gan leihau ein hallyriadau CO2.
- Parhau i symud tuag at weithio di-bapur, lleihau allbynnau print a phostio, ac yn sgil hyn, lleihau trafnidiaeth ac adnoddau sy'n cyfrannu at ein cyfrifoldebau byd-eang yn eu tro.
- Datblygu set graidd o weithgareddau rheoli gyda'r bwriad o symleiddio ac awtomeiddio lle bo hynny'n bosibl.

# Cyngor Digidol



CYNGOR DIGIDOL

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Archwilio’r 'Rhyngrwyd Pethau' e.e. Alexa ar gyfer technoleg sy'n gwella lles a diogelwch dinasyddion yn eu cartrefi e.e. larymau personol, technoleg adnabod llais sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal, atal colli annibyniaeth a galluogi cymunedau i ddod yn fwy gwydn.
- Symleiddio ein prosesau arferol ac ailadroddus, gan ddarparu cysylltiadau o'r dechrau i'r diwedd â systemau cefn swyddfa, gyda'r uchelgais o sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy awtomeiddio digidol.
- Profi'r farchnad ddigidol er mwyn sicrhau nad oes technoleg anhyblyg a drud yn cael ei chaffael nad yw'n cysylltu'n effeithiol.
- Datblygu cynllun gweithredu TGCh yn seiliedig ar egwyddorion a nodau'r Strategaeth Ddigidol, gan adolygu'r seilwaith TGCh yn barhaus er mwyn sicrhau bod y gallu a'r capasiti i gyflwyno a datblygu llwyfannau newydd a hwyluso ffyrdd newydd o weithio.
- Galluogi rheolwyr i ddefnyddio ystod o adnoddau ar-lein i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli
- Darparu technoleg briodol â llaw i staff rheng flaen gan ganiatáu diweddaru gwybodaeth mewn amser real gan arwain at well gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd i'n dinasyddion.
- Parhau i gyflwyno swyddogaethau hunan-wasanaeth, gan gynnwys modiwlau perfformiad ac arfarnu, o fewn y system Adnoddau Dynol a’r gyflogres
- Archwilio'r cyfleoedd ehangach o gydweithio â phartneriaid, gan gynnwys integreiddio swyddogaethau cefn swyddfa yn ffurfiol i wella gwasanaethau a chydlyniant.
- Adolygu cyfleoedd i ddigido siambr y Cyngor gan alluogi dinasyddion i ryngweithio'n well ac mewn amser real ag aelodau yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus a'u cynnwys yn y prosesau democrataidd a sicrhau cymuned fwy cydlynol.

### Ein cyfraniad i'r nodau llesiant canlynol:

CYMRU LEWYRCHUS | CYMRU GYDNERTH | CYMRU SY'N FWY CYFARTAL | CYMRU IACHACH | CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS | CYMRU O DDIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU | CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

# Lle Digidol

## LLE DIGIDOL

LLE DIGIDOL

- Wedi'i gysylltu'n eang
- Canolbwyntio ar y gymuned
- Meddwl yn flaengar
- Yn ddeniadol yn economaidd

## CYNGOR DIGIDOL

CYNGOR DIGIDOL

- Trawsnewid gwasanaethau
- Atebion digidol arloesol
- Data cydgysylltiedig
- Canolbwyntio ar y dinesydd

## DINESYDD DIGIDOL

DINESYDD DIGIDOL

- Hunan-wasanaeth pan fo angen
- Dewis o sianeli cyfathrebu
  Sgiliau digidol a chynwysoldeb



LLE DIGIDOL

## Yr hyn rydym yn ei wneud:

- Cydweithio â phartneriaid ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a darparu cyfleoedd digidol sy'n deillio o'r agenda ddigidol genedlaethol.
- Cysylltu â gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymorth busnes eraill gan gynnwys fforymau Busnes Cymru Cyflym Iawn a Busnes Pen-y-bont ar Ogwr i rannu syniadau busnes ac arloesedd sy'n cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus a Chymru ffyniannus.
- Cefnogi ein busnesau drwy gyfeirio ymholiadau at bartneriaid priodol y gellir ymddiried ynddynt, cynorthwyo gyda cheisiadau grant, cynlluniau prentisiaid a chyfathrebu drwy'r wefan.
- Cyflawni rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol ysgolion yr 21ain ganrif gyda'r nod o greu cenhedlaeth o ysgolion modern yng Nghymru. Bydd gan dechnoleg ddigidol ran allweddol i'w chwarae yn y rhaglen, gan sicrhau bod ein disgyblion yn gallu harneisio'r sgiliau i'w helpu i lwyddo.
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod technoleg yn offeryn ar gyfer addysg ac nid yn rhwystr.
- Hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr a denu ymwelwyr drwy wefan a sianel cyfryngau cymdeithasol bwrpasol yn amlinellu pam mae Pen-y-bont ar Ogwr yn lle da i ymweld ag ef a byw ynddo.

# Lle Digidol



LLE DIGIDOL

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Cefnogi rhaglen Cymru Cyflym Iawn gan sicrhau bod cysylltedd symudol yn rhagorol ledled yr ardal.
- Cydweithio â'r Sefydliad Technolegau Ynni a'r Catapwlt Systemau Ynni ar y rhaglen Systemau Clyfar a Gwres Caerau, prosiect cydweithredol, arloesol sy'n archwilio arloesedd technoleg yng ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cysylltu â darparwyr technoleg a chyrff y llywodraeth i sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr ar flaen y gad o ran datblygiadau technoleg a sicrhau bod gan ein cymunedau bosibiliadau digidol cyfartal ag unrhyw faes arall.
- Gweithredu'r Safonau Addysg Digidol a fydd yn cynorthwyo ysgolion i reoli a gweithredu eu hamgylchedd digidol yn effeithiol, naill ai ar eu pen eu hunain neu drwy eu darparwyr technoleg.
- Sicrhau bod gan ein hysgolion seilwaith digidol rhagorol sy'n sicrhau cymhwysedd digidol uchel yn unol â'r cwricwlwm gan roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a datblygu eu cyfleoedd hirdymor.
- Annog perthynas agos rhwng busnesau ac ysgolion i sicrhau bod ein dysgwyr yn gadael addysg gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a dyfodol cadarnhaol.




## Ein cyfraniad i'r nodau llesiant canlynol:



# Llywodraethu

**Mae trefniadau llywodraethu da yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gweledigaeth a nodau'r Strategaeth yn cael eu cynnal drwy gydol y daith. Bydd y Strategaeth Ddigidol yn cael ei llywodraethu fel a ganlyn:**

- Bydd y Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn gyfrifol am y Strategaeth Trawsnewid Digidol, gyda chefnogaeth y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Digidol
- Bydd y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Digidol yn goruchwylio ac yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Bydd y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Digidol yn cynnwys Prif Swyddogion, uwch ddefnyddwyr a bydd rheolwyr prosiectau yn darparu llywodraethu ar gyfer y risgiau sefydliadol hynny yn ogystal â llywodraethu o'r broses o gofrestru Achosion Busnes i gyflawni'r prosiect a'i fanteision busnes
- Bydd y Strategaeth yn cael ei diwygio'n flynyddol, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol a'r MTFS, gan y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Digidol i adlewyrchu unrhyw newid mewn amgylchiadau a newid o ran uchelgais
- Bydd ceisiadau am ddatblygiadau digidol yn seiliedig ar achosion busnes sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol sy'n amlinellu enillion clir ar fuddsoddiad. Bydd pob un yn cael ei werthuso gan y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Digidol a'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol.
- Cynhelir ymgynghoriad allanol i roi cyfle i'n dinasyddion ddweud wrthym beth yr hoffent ei gael o'n gwasanaethau ac awgrymu gwelliannau
- Mae’r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth yn cael eu rheoli a'u hymgorffori mewn trefniadau rheoli risg prosiectau gyda chyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael eu dyrannu i'r Uwch Swyddog Cyfrifol
- Mae safonau a pholisïau yn cael eu cytuno, eu dogfennu ac yn eiddo i uwch reolwyr ac nid gan y gwasanaeth TGCh
- Adroddir ar gynnydd drwy'r Cynllun Blynyddol



bridgend.gov.uk